

Cyflwynwyd yr ymateb hwn i ymgynghoriad y [Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg](#) ar [Flaenoriaethau'r Chweched Senedd](#)

This response was submitted to the [Children, Young People and Education Committee](#) consultation on [Sixth Senedd Priorities](#)

CYPE SP 29

Ymateb gan: Angharad Morgan, Rheolwr Polisi, Mudiad Meithrin

Response from: Angharad Morgan, Policy Manager, Mudiad Meithrin

Beth yn eich barn chi yw'r prif flaenoriaethau neu'r materion y dylai'r Pwyllgor eu hystyried yn ystod y Chweched Senedd? Os oes modd, nodwch eich barn o ran sut y gallai'r Pwyllgor fynd i'r afael â hyn.

What do you consider to be the main priorities or issues that the Committee should consider during the Sixth Senedd? Where possible, please set out your view about how the Committee could address them.

Mae Mudiad Meithrin yn croesawi'r cyfle i gyflwyno materion i'ch sylw sy'n berthnasol i gylch gorchwyl y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Dymunwn yn dda i chi fel pwyllgor wrth i chi graffu ar y meysydd hyn ar hyd y chweched senedd.

Rydym yn gymdeithas wirfoddol genedlaethol o Gylchoedd Meithrin, cylchoedd Ti a Fi, gofal cofleidiol a meithrinfeydd dydd Cymraeg. Ein nod yw creu siaradwyr Cymraeg newydd, ymgyrchu dros ofal ac addysg Gymraeg i bob plentyn, cefnogi ein haelodau a chynllunio'n strategol i ddatblygu gwasanaethau newydd.

Ers 1971 rydym wedi tyfu'n aruthrol. Erbyn heddiw mae tua 1000 o Gylchoedd Meithrin, Cylchoedd Ti a Fi, grwpiau 'Cymraeg i Blant', sesiynau 'Clwb Cwtsh' a Meithrinfeydd dan faner y Mudiad Meithrin sydd yn darparu profiadau blynyddoedd cynnar i tua 22,000 o blant bob wythnos.

Hefyd, rydym yn gweithio'n agos iawn gyda rhieni er mwyn darparu cymorth a chynghor i'w galluogi i ddatblygu a chefnogi gwaith y cylchoedd yn y cartref, trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant neu ddechrau dysgu Cymraeg. Rydym yn elusen gofrestredig sy'n cyflogi dros 200 o bobl yn genedlaethol, gyda 2000 ychwanegol yn gweithio yn y Cylchoedd a'r meithrinfeydd. Cefnogir y cylchoedd gan rwydwaith cenedlaethol o staff proffesiynol sy'n eu cynghori ar amrediad o faterion er enghraifft



cefnogaeth fusnes, cymwysterau a recriwtio staff, hybu arfer da, hyfforddiant staff a chyd-weithio ag Awdurdodau Lleol.

Thema 1: Addysg oedran ysgol | Theme 1: School-age education

Mae Mudiad Meithrin yn argymhell y dylai'r PPPIA flaenoriaethu'r agweddau canlynol yn ystod y chweched senedd:

- Sicrhau un gyfundrefn genedlaethol gofal plant ac addysg gynnar o ran cyllido, arolygu ac ansawdd.

Mae'r Cylchoedd Meithrin, fel darparwyr gofal plant ac addysg gynnar, wedi wynebu heriau ariannol digynsail yn ystod y cyfnod COVID-19. Amlygwyd y cyfnod COVID-19 yr heriau hyn, gan iddynt golli incwm gan rieni a theuluoedd yn ogystal â cholli allan ar grantiau ychwanegol, gan mai prin iawn oedd y grantiau penodol i'r sector gofal plant. Byddai sicrhau un gyfundrefn genedlaethol ar gyfer cyllido, arolygu ac ansawdd o gymorth i'r sector yn y cyfnod o adferiad yn dilyn pandemic COVID-19.

Rhaid sicrhau bod digon o gyfleoedd gofal plant o ansawdd ar gael o amgylch y diwrnod ysgol i ddiwallu anghenion rhieni sy'n gweithio. Mae teuluoedd yn parhau i fod angen gofal plant rheoledig o ansawdd pan fydd eu plentyn yn 3-12 oed, ac yn nodweddiadol mae'r diwrnod gwaith i rieni / gofalwyr yn hirach na'r diwrnod ysgol. Rhaid sicrhau bod y gwasanaethau gofal plant hyn wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, yn gynaliadwy ac wedi'u llywodraethu'n gadarn (h.y. gyda mynediad at gyllid addas, a chefnogaeth addas megis trwy bartneriaid CWLWM). Mae angen cydraddoldeb yn y ffocws a roddir yn ystod y Chweched Senedd ar anghenion gofal plant i blant oed ysgol ac nid dim ond y rhai sydd yn mynychu lleoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar. Rhaid hefyd sicrhau cydraddoldeb yn y ffocws ar ofal plant ac addysg.

- Normaleiddio a phrif-ffrydio argaeledd gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

Gofal plant ac addysg gynnar yw'r cam cyntaf yn nhaith addysg pob plentyn. Rydym yn galw am normaleiddio a phrif-ffrydio argaeledd gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ar draws Cymru. Bydd angen ystyriaeth benodol i sicrhau ehangu a chynyddu canran y llefydd ac argaeledd darpariaeth Cymraeg o fewn cynlluniau penodol (e.e. elfen gofal plant Dechrau'n Deg) i lefelau sydd yn cyd-fynd a'r targedau a osodwyd ar gyfer y nifer / % o blant sydd yn cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer deilliannau 1, 2 a 3 Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022 - 2032.



- Sicrhau dehongliad clir o amcanion Cwricwlwm 2022, gyda chefnogaeth bwrpasol i'r sector nas gynhelir.

Mae disgwyl i ddarparwyr addysg gynnar ddarparu addysg sydd yn ateb gofynion y cwricwlwm i blant 3 - 5 oed sydd yn mynychu Cylchoedd Meithrin a lleoliadau nas-cynhelir eraill. Er mwyn galluogi'r lleoliadau i ddarparu addysg a gofal o ansawdd, mae angen sicrhau cefnogaeth a disgwyliadau clir a chyson i'r gweithlu. Bydd angen sicrhau cyd-weithio agos gyda'r sector wrth weithredu Cwricwlwm 2022, er mwyn sicrhau paratoi'r gweithlu ar ei chyfer a sicrhau'r dechrau gorau posib i'r plant lleiaf.

Thema 2: Addysg bellach ac addysg uwch | Theme 2: Further and higher education

Mae Mudiad Meithrin yn argymhell y dylai'r PPPIA flaenoriaethu'r agweddau canlynol yn ystod y chweched senedd:

- Sicrhau fframwaith prentisiaethau cyfrwng Cymraeg ar gyfer cymwysterau lefelau 1 i 6.

Nid yw heriau recriwtio a chadw o fewn y gweithlu gofal plant ac addysg gynnar yn newydd i'r sector. Mae gofynion rhaglenni a chynlluniau gan gyllidwyr fel yr Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru yn gosod pwysau gwaith cynyddol ar y gweithlu. Gwyddom o brofiad fod angen cydbwysu gwerth y gweithlu gofal plant ac addysg gynnar i'r economi yn gyffredinol gyda'r diffyg cydnabyddiaeth a pharch tuag at y sector. Bydd rhaid cyd-weithio gyda darparwyr arbenigol Cymraeg, megis adran hyfforddiant Mudiad Meithrin i sicrhau medru cynnig cynllun hyfforddiant a phrentisiaethau trwy gyfrwng y Gymraeg i'r sector.

- Cefnogi Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) y gweithlu blynyddoedd cynnar.

Gofynnwn i'r PPPIA sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cyd-weithio gyda phartneriaid allweddol yn y maes i edrych ar y setiau sgiliau sydd eu hangen. Bydd hyn yn golygu datblygu, cynnig a chynnal hyfforddiant cychwynol a DPP priodol, gan sicrhau cyfran ariannol o gronfeydd hyfforddi lleol a rhanbarthol.

- Sicrhau buddsoddiad yng ngallu ieithyddol y gweithlu blynyddoedd cynnar trwy gynlluniau megis cynllun 'Camau' Cymraeg Gwaith a chynllun trochi 'Croesi'r Bont'.

Mae cynlluniau fel cynllun Camau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn hollbwysig i ddatblygiad gweithlu sydd yn hyderus yn eu Cymraeg. Ond, rhaid hefyd nodi pwysigrwydd sicrhau cyfleoedd hyfforddi a chymhwyso drwy gyfrwng y



Gymraeg i'r sawl sydd am gychwyn gyrfa yn y maes. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod hyn, ac maent am ehangu'r rhaglen hyfforddiant i ymarferwyr y blynyddoedd cynnar drwy gynyddu cyfleoedd prentisiaethau ac ehangu'r rhaglen Croesi'r Bont sy'n trochi ymarferwyr newydd yn y Gymraeg.

Thema 3: Iechyd a lles, gan gynnwys gofal cymdeithasol (i'r graddau y maent yn ymwneud â phlant a phobl ifanc) | Theme 3: Health and well-being, including social care (as they relate to children and young people)

Thema 4: Plant a phobl Ifanc | Theme 4: Children and young people

